Mae eich preifatrwydd yn bwysig i ni. Mae'r hysbyseb hon yn esbonio pa ddata personol yr ydym yn casglu ohonoch chi a sut yr ydym yn eu defnyddio. Darllenwch y crynodebau isod os gwelwch yn dda ac os hoffech chi mwy o wybodaeth, cysylltwch â ni.

**Amdanom Ni**

Newport City Homes
Tŷ Nexus
Cwrt Mission
Casnewydd
NP20 2DW
Ffôn: 01633 227694

Ein Swyddog Diogelu Data yw Paul Boobyer a gallwch gysylltu â fe ar y rhif ffôn uchod neu e-bost paul.boobyer@newportcityhomes.com

**Pam ydyn ni'n prosesu'ch gwybodaeth bersonol?**

Rydym yn prosesu'ch gwybodaeth bersonol, gan gynnwys unrhyw gategori arbennig o wybodaeth bersonol, mewn cysylltiad â rheoli'ch tenantiaeth. Bydd hyn hefyd yn cynnwys ni'n delio ag unrhyw geisiadau tai efallai yr ydych yn eu gwneud, atgyweiriadau rydym yn gweithredu, hysbysebion rhent ac ad-daliadau, a phethau megis ymddygiad gwrthgymdeithasol, hawlio, cwyno ac apelio am yswiriant; ac rydym yn prosesu'r wybodaeth hon naill ai achos mae'n ofynnol i ni ei wneud er mwyn rheoli'ch tenantiaeth neu gan fod cyfreithiau sy'n ein galluogi i, neu'n ein gorfodi i'w phrosesu.

Os nad ydych yn cyflwyno'r wybodaeth hon i ni, ni fyddwn yn gallu rhoi tenantiaeth i chi.

Weithiau rydym yn prosesu'ch gwybodaeth bersonol achos, fel busnes, mae gennym ni ddiddordeb dilys wrth wneud hynny. Byddwn dim ond yn gwneud hyn, serch hynny, pan fyddwn yn hyderus y byddai'n rhesymol disgwyl i ni wneud hynny. Er enghraifft, pan fyddwch yn helpu ni gydag arolygon yr ydym yn gweithredu er mwyn i ni wella'r gwasanaeth yr ydym yn cynnig i chi.

Mae rhai achosion lle efallai bydd angen eich caniatâd arnom ni er mwyn prosesu'ch gwybodaeth bersonol. Os oes angen, byddwn yn dweud wrthoch chi a ni fyddwn yn prosesu'ch gwybodaeth oni bai eich bod yn rhoi caniatâd i ni. Byddwch wedyn yn cael y dewis i dynnu nôl eich caniatâd ar unrhyw adeg.

**Pa wybodaeth bersonol ydyn ni'n ei phrosesu ac o ble ydyn ni'n ei chael hi?**

Y mwyafrif o wybodaeth bersonol yr ydym yn prosesu yw gwybodaeth eich bod wedi rhoi ni ynglŷn â chi a'r bobl sy'n byw gyda chi. Mae hyn yn cynnwys pethau megis eich

- enw
- cyfeiriad
- rhifau ffôn
- dyddiad geni
- Rhif Yswiriant Gwladol
- rhyw
- manylion cyfrif banc

Rydym hefyd yn prosesu categorïau arbennig o wybodaeth bersonol megis

- hil neu darddiad ethnig
- crefydd

- gwybodaeth ynglŷn â'ch iechyd. Er enghraifft, anawsterau symudedd sy'n golygu bod angen newidiadau i breswylfeydd
- gwybodaeth ynglŷn ag euogfarnau neu honiadau troseddol

Byddwn yn gwneud hyn pan fydd sail gyfreithiol i ni ei wneud yn unig. Er enghraifft, pan rydych chi wedi rhoi caniatâd i ni brosesu'ch gwybodaeth, pan fydd angen i ni brosesu'ch gwybodaeth er mwyn diogelu'ch diddordebau hanfodol, neu pan fydd cyfreithiau sy'n ein galluogi, neu yn ein gorfodi i'w wneud.

Weithiau rydym yn prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch chi sydd wedi'i chyflwyno gan sefydliadau eraill megis yr awdurdod lleol neu'r heddlu. Gall gynnwys, er enghraifft, gwybodaeth ynglŷn â chais am dai, cais am fudd-dal tai neu becyn cymorth.  Bydd y sefydliad arall dim ond yn rhannu'r wybodaeth hon gyda ni, serch hynny, os ydych chi naill ai wedi rhoi caniatâd iddynt wneud neu os yw'r gyfraith yn caniatáu iddynt wneud.

## Gyda phwy y byddwn yn rhannu'ch gwybodaeth bersonol?

Er mwyn rheoli'ch tenantiaeth, rydym weithiau'n rhannu'ch gwybodaeth bersonol gyda phobl neu sefydliadau eraill.  Mae hyn yn cynnwys contractwyr sy'n gweithio i Newport City Homes er mwyn cynnig, er enghraifft, newidiadau ac atgyweiriadau; sefydliadau megis yr awdurdod lleol, cyfleustodau a sefydliadau partner anllywodraethol eraill, er mwyn galluogi iddynt brosesu ceisiadau am fudd-dal tai efallai byddwch yn eu gwneud neu er mwyn cynnig gwasanaeth i chi; neu i'r heddlu ac asiantaethau eraill at ddibenion atal neu ddatgelu trosedd. Serch hynny byddwn dim ond gwneud hyn os ydych yn rhoi caniatâd i ni wneud, neu pan fydd cyfreithiau sy'n galluogi ni i'w gwneud, neu os oes angen i ni wneud er mwyn rheoli'ch tenantiaeth, er enghraifft er mwyn trwsio'ch eiddo ac ailosod gosodiadau.

## A fyddwn yn trosglwyddo'ch gwybodaeth bersonol y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop?

Mae llawer o'r wybodaeth bersonol yr ydym yn prosesu yn Newport City Homes yn cael ei chadw'ch electronig, ac mae'r mwyafrif yn cael ei chadw yn ein swyddfeydd yng Nghasnewydd.  Mae rhai o'n systemau cyfrifiadur yn cadw'r wybodaeth oddi ar y safle serch hynny, a lle bo hynny'n digwydd rydym yn gweithio'n agos â darparwyr y meddalwedd i sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei chadw yn unol â gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Lle bo gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw mewn canolfannau data tu allan i Ardal Economaidd Ewrop rydym yn sicrhau bod "lefel priodol o ddiogelwch am hawliau sylfaenol gwrthrychau data".

## Am ba mor hir y byddwn yn cadw'ch gwybodaeth bersonol?

Mewn cysylltiad â rheoli'ch tenantiaeth neu brydles, byddwn yn cadw'ch gwybodaeth bersonol am gyfnod o chwe blynedd ar ôl i'ch cyflogaeth gorffen a hyn yw, fel arfer, y cyfnod hiraf byddwn yn cadw unrhyw ddarn o'ch gwybodaeth bersonol. Mae gwybodaeth sydd wedi'i chyflwyno gan asiantaethau eraill ac sy'n berthnasol i anghenion arbennig preswylwyr, a chofnodion ynglŷn â throseddwyr, yn cael ei chadw pan fydd y denantiaeth yn parhau yn unig; ac mae delweddau o'n camerâu TCC yn cael eu cadw am 28 diwrnod yn unig. Ar ddiwedd y cyfnod hwn, byddwn yn gwaredu'ch gwybodaeth bersonol mewn modd diogel oni bai bod angen y wybodaeth at ddiben penodol.

Pan fydd angen i ni gadw eich gwybodaeth bersonol am gyfnod hirach na hwn, er enghraifft ar rai o'n systemau cyfrifiadur, byddwn yn ceisio ei lleihau ac yn ei gwneud yn anhysbys.

**Pa hawliau sydd gennych chi?**

Mae gennych chi nifer o hawliau dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Mae gennych chi'r hawl i gael mynediad i'r wybodaeth bersonol yr ydym yn prosesu amdanoch chi ac, os ydych chi'n credu bod y wybodaeth bersonol yn anghywir neu'n anghyflawn, i'w chywiro neu ddileu. Mae gennych chi'r hawl, mewn amgylchiadau penodol, i atal prosesu'ch data a'r hawl i wrthwynebu rhai mathau o brosesu. Mae gennych chi'r hawl yn ogystal i gyflwyno cwyn i awdurdod goruchwylio - Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am y DG.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â hawliau'r unigolyn, efallai byddwch yn dymuno ymweld â gwefan y Comisiynydd Gwybodaeth: https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/individual-rights/

I gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth gallwch ysgrifennu, ffonio neu e-bostio'r canlynol:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
2il Lawr
Tŷ Churchill
Heol Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

Ffôn: 02920678400

Ebost: wales@ico.org.uk